



Y WERIN
CRONFA DREFTADAETH
LEGACY FUND
Ymddiriedolaeth Gwaddol Cyfyngedig PC
The UW Restricted Endowment Trust

Gwobr/Cyfrodd Goffa Vernam Hull

Daw'r Wobr/Cyfrodd o log blynyddol cymynrodd o Ddeng Mil (10,000) o Ddoleri i Brifysgol Cymru gan y diweddar Dr Vernam Edward Nunnemacher Hull (1894-1976), Athro mewn Ieithoedd Celtaidd ym Mhrifysgol Harvard, y dyfarnwyd iddo radd DLitt honoris causa gan Brifysgol Cymru ar achlysur y Gyngres Astudiaethau Celtaidd Gydwladol ym 1963.

1. Buddsoddir Cronfa Gwobr/Cyfrodd Goffa Vernam Hull a defnyddir y llog i roddi gwobr neu gyfrodd flynyddol a elwir "Gwobr/Cyfrodd Goffa Vernam Hull".
2. Gall y Wobr/Cyfrodd fod yn un o ddau fath¹
 - (a) Gwobr o gwmpas £500 neu
 - (b) Grant i gynorthwyo ymchwil hyd at £1,500.
3. Penoda UWRET dri beirniad, heb fod yn ddiweddarach na 30 Mehefin, neu ryw ddyddiad arall a gaiff ei ddewis bob blwyddyn, ac ar sail eu hadroddiad hwy (neu adroddiad mwyafrif ohonynt) gwnaiff UWRET benderfyniad yngylch rhoi'r Wobr/Cyfrodd neu atal y Wobr/Cyfrodd.
4. Dyletswydd y tri beirniad fydd argymell rhoddi'r Wobr/Cyfrodd naill ai am waith gorffenedig yn ymwneud â Rhyddiaith Gymraeg cyn 1700, neu i alluogi gwneuthur ymchwil neu astudiaeth yn y maes hwn.
5. Os dywed y beirniaid na ddylid rhoi'r Wobr/Cyfrodd atelir y Wobr/Cyfrodd a rhoddir llog y flwyddyn at gorff y Gronfa.

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.